



Llygoden y dŵr Ewropeaidd
(*Arvicola amphibius*)

2050 PENNAL 2050

Cylchlythyr 9



Prosiect Llif Araf bellach wedi'i osod yn y coed

MAE'R prosiect 'Llif Araf', rhan o brosiect Cynllun Rheoli Cynaliadwy Pennal 2050, bellach wedi cael ei osod yng nghoetir ac ar dir fferm Pennal. Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Partneriaeth Pennal, y prif sefydliad, a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n berchen ar y coetir ar y bryniau uwchben y pentref. Roedd yn rhaid i Bartneriaeth Pennal drafod cytundeb mynediad ar gyfer y prosiect i wneud gwaith ar dir CNC. Yna, roedd yn rhaid cynnal proses dendro ar gyfer gwahanol agweddau ar y cynllun, gan gydymffurfio gyda rheolau llym CNC o ran tendro a sicrhau bod yr holl gontractwyr yn cydymffurfio gyda'r gweithdrefnau gweithredol. Cynhaliwyd y gwaith gosod rhwng mis Ionawr - Mawrth 2021. Roedd yn rhaid cwblhau oddeutu 60 eitem (e.e. gweddillion coedlog, ceuffosydd ac ati).

Yn ôl Rhys Parry, cadeirydd Partneriaeth Pennal: "Roedd llawer o waith cynllunio, gweinyddol ac ymarferol i'w wneud. Hoffem ddiolch i bawb a fu'n cymryd rhan ac sydd wedi sicrhau llwyddiant gyda'r pwrcau a'r gosod, sef Heather (Pennal 2050), Grace, Jane, Olly, Jim, Llyr a Will (Cyfoeth Naturiol Cymru) a'r holl staff a fu'n rhan yn y prosiect o gwmni contractwyr Alfa Tree Services (Jason, y goruchwyliwr), AWJ Contracting a Williams Civil Engineering. Diolch hefyd i'n harchwiliwr peirianeg sifil, Mark o Civil Engineering Solution (Dolgellau) a thîm sifil CNC. Byddwn yn parhau i fonitro'r canlyniadau'n ofalus i weld a yw'r ymyriadau wedi bod yn effeithiol o ran ymdrin ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a gwella bioamrywiaeth."



Mae'r argaeau coedlog (ar y chwith) yn cael eu creu er mwyn arafu llif y dŵr. Mae ceuffosydd (uchod) wedi cael eu creu i wasgaru'r dŵr dros y tir yn hytrach na bod y dŵr yn mynd i'r cyrsiau dŵr. Mae maes parcio gweithwyr coetir Pennal (ar y chwith) wedi cael ei uwchraddio at ddiben defnydd cyhoeddus.



www.croesopennal.cymru
pennalpartners@aol.com



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



European Water Vole
(Arvicola amphibius)

2050 PENNAL 2050

Newsletter 9



Slo-flo now installed in forestry

THE Slo-Flo project, part of Pennal 2050 Sustainable Management Scheme project, is now installed in Pennal forestry and farmland. The project is a partnership between Partneriaeth Pennal, lead organisation, and Natural Resources Wales which owns the forestry on the hills above the village. Partneriaeth Pennal had to negotiate a project access agreement to carry out work on NRW land .It then go out to tender on the various aspects of the scheme, complying with NRW’s strict rules about tendering and ensuring that all contractors were compliant with its operational procedures. Installation took place between January - March 2021.

Around 60 items (eg woody debris, culverts etc) had to be completed.

Rhys Parry, chair of Partneriaeth Pennal, says: “This was a great deal of planning, administrative and on-the-ground work. Our thanks go to all those who took part and made a success of the procurement and installation, namely Heather (Pennal 2050), Grace, Jane, Olly, Llyr, Jim and Will (Natural Resources Wales) and all the staff involved from contractors Alfa Tree Services (supervisor Jason), AWJ Contracting and Williams Civil Engineering. Thanks, in addition, to our civil engineer inspector Mark of Civil Engineering Solutions (Dolgellau) and NRW civils team. We will continue to closely monitoring the results to see if the interventions have been effective in dealing with the effects of climate change and improving biodiversity.”



The woody debris dams are constructed (left) to slow the flow of water. Culverts are installed (above) to spread water over land rather than go into the watercourses. The Pennal forestry workers' car park (below, left) has been upgraded for public use.



www.visitpennal.wales
pennalpartners@aol.com

